Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 12/2021
Dyddiad cyhoeddi: 24/02/2021

# Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth:
# Yr Almaen Mawrth 2020

Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth:
Yr Almaen Mawrth 2020
Awduron yr Adroddiad: Jonathan Young a Tanya Sharapova

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
David Stephens
Uwch Reolwr Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: David.stephens@gov.wales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-891-9

# Croeso Cymru

## Adroddiad Cryno Astudiaeth Marchnad

Yr Almaen

Mawrth 2020

Cynhyrchwyd gan BVA BDRC

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** **6**

Deall yr adroddiad hwn 6

Methodoleg 6

Diffiniad sampl 6

Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd) Error! Bookmark not defined.

**3. Dylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr** **11**

Prif ddylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr 11

Bwriad i ymweld â’r DU 11

**Rhwystrau i ymweld â’r DU** **13**

Mathau o gyrchfannau gwyliau sy'n cael eu hystyried yn y DU 14

Mathau o brofiadau sy'n cael eu hystyried yn y DU 16

Dylanwadau ar wyliau 17

**4. Ystyriaeth o Gymru** **19**

Cynefindra a pherthynas â gwledydd dethol 19

Ystyriaeth o gyrchfannau’r DU ar gyfer gwyliau 22

Proffil y rhai sy'n ystyried Cymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau 23

Proffil ystyrwyr ar gyfer pob gwlad 24

Rhesymau dros beidio ag ystyried ymweld â Chymru 25

**5. Ymweld â Chymru** **26**

Amseriad trip disgwyliedig i Gymru 26

Cam cynllunio’r trip nesaf i Gymru 26

Ble arall y bwriedir ymweld ag ef yn y DU 28

Cyfansoddiad parti a ragwelir ar gyfer y trip nesaf i Gymru 29

Hyd trip a ragwelir i Gymru 30

Ffynonellau gwybodaeth disgwyliedig i gynllunio'r trip nesaf i Gymru 31

Sianeli archebu disgwyliedig ar gyfer y trip nesaf i Gymru 32

**6. Cyswllt gyda Croeso Cymru** **34**

**Gohebiaeth ddiweddar a welwyd/a glywyd am Gymru yn ddiweddar** 34
**Yn cofio hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd)** 35
**Ymgysylltiad â chyfathrebiadau Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf** 35

**7. Prif Ganfyddiadau a Goblygiadau** **37**

**8. Atodiad** **39**
**Methodoleg** 39
**Meintiau sylfaen a dibynadwyedd ystadegol** 40

# 1. Cyflwyniad

## Deall yr adroddiad hwn

1.1 Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, mae Croeso Cymru yn gyfrifol am ddefnyddio ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan gwyliau. Fel rhan o hyn, bob blwyddyn mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ymhlith ei marchnadoedd blaenoriaeth. Mae'r ymchwil yn edrych yn fras ar:

- Bwriadau gwyliau cyffredinol a gwyliau byr ar gyfer y 12 mis sydd i ddod.
- Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis gwyliau a gwyliau byr, yn gyffredinol ac i/o fewn y DU.
- Mathau o gyrchfannau a phrofiadau a ffafrir ar gyfer gwyliau a gwyliau byr yn y DU.
- Ymwybyddiaeth, canfyddiadau ac ystyriaeth o gyrchfannau yn y DU ar gyfer gwyliau neu wyliau byr.
- Canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr.
- Ffynonellau cynllunio ac archebu ar gyfer tripiau i Gymru.
- Ymgysylltu â sianeli gwybodaeth Croeso Cymru.
- Proffilio a demograffeg.

1.2 Cynhelir yr ymchwil ar wahanol adegau drwy gydol y flwyddyn.

1.3 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau cryno rheolaidd a gyhoeddir yn dilyn pob ton o'r astudiaeth. Bydd yr adroddiadau cryno yn amlinellu canfyddiadau allweddol bob ton o'r arolwg.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r **farchnad Almaenaidd**.

## Methodoleg

1.5 Cysylltwyd ag ymatebwyr drwy banel ar-lein gyda'r arolwg y gellid ei gwblhau drwy fwrdd gwaith neu ddyfais symudol.

1.6 Cynhaliwyd gwaith maes rhwng **27ain Chwefror a 9fed Mawrth 2020**, cyn y prif achosion o COVID-19 a'r cyfyngiadau yn y DU. Cwblhawyd 1000 o ymatebion.

1.7 Ar gyfartaledd, cymerodd yr arolwg 20 munud i'w gwblhau.

## Diffiniad sampl

1.8 I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i gyfranogwyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod yn gynrychioliadol o boblogaeth yr Almaen yn genedlaethol yn ôl oedran, rhyw a rhanbarth
- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr.
- Rhaid bod yn ystyried *o ddifrif* cymryd gwyliau neu wyliau byr mewn llety y telir amdano yn y DU yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

# 2. Prif Ganfyddiadau

| 2<br>Pwynt canran | 19<br>Pwynt canran | 6<br>Pwynt canran | -23<br>Pwynt canran |
|---|---|---|---|
| Cynnydd net yn y bwriad i gymryd tripiau i'r DU yn y 12 mis nesaf | Cynnydd net yn y bwriad i gymryd tripiau i'r Almaen yn y 12 mis nesaf | Cynnydd net yn y bwriad i gymryd tripiau i Dir mawr Ewrop yn y 12 mis nesaf | Gostyngiad net yn y bwriad i gymryd tripiau i Weddill y Byd yn y 12 mis nesaf |

### Y prif rwystrau i ymweld â'r DU

**30%** Amgylchiadau personol

**27%** Rhy ddrud yn y DU

**25%** Ansicrwydd ynghylch Brexit

### Y prif resymau i ymweld â'r DU

**44%** Llawer o wahanol lefydd i ymweld â nhw

**39%** Cyrchfan croesawgar

**37%** Cyrchfan ddiogel i deithio iddo

Mae pryderon amgylcheddol yn arbennig o bwysig i farchnad yr Almaen. Mae'n ffactor dylanwadol i ddwy ran o dair ar eu penderfyniadau gwyliau.

Gall hyn fod o fudd ar gyfer teithio i'r DU gan fod 30% yn ystyried ei fod 'gerllaw felly'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd' fel rheswm dros deithio i'r DU

### Mwyaf tebygol o ystyried y lleoliadau hyn ar gyfer gwyliau i'r DU




Trefi hanesyddol a threftadaeth **68%**



Dinasoedd a threfi mawr **61%**




Arfordir golygfaol a harbwrs **56%**




Cefn gwlad a phentrefi golygfaol **53%**

**Mae Cymru fwyaf cysylltiedig â trefi hanesyddol a threftadaeth a chefn gwlad a phentrefi golygfaol er bod gan y ddau gysylltiadau uwch mewn gwledydd eraill y DU**



## Perthynas â gwledydd yn y DU ac Iwerddon




### Yr Alban

| | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 39% |
| Cynefindra | 33% |
| Yn ystyried ymweld | 55% |

### Iwerddon

| | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 39% |
| Cynefindra | 33% |
| Yn ystyried ymweld | 54% |

### Lloegr


| | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 63% |
| Cynefindra | 46% |
| Yn ystyried ymweld | 63% |

### Cymru


| | |
|---|---|
| Ymwelwyd yn flaenorol | 31% |
| Cynefindra | 24% |
| Yn ystyried ymweld | 33% |

## Demograffeg y farchnad Almaenaidd sy'n ystyried trip i Gymru


### Segmentau




### Dadansoddiad oedran




### Rhanbarth




### Plant o dan 16 oed ar yr aelwyd

# 23%

## Y 5 prif reswm dros *beidio* ag ymweld â Chymru:

**27%**
Dydw i ddim yn gwybod digon am yr hyn sydd i'w wneud


**27%**
Mae ar fy rhestr ond rydw i eisiau gweld lleoedd eraill yn gyntaf

**26%**
Mae Cymru'n ddrytach na charfannau eraill

**23%**
Mae lleoedd eraill yn y DU yn fwy deniadol

**22%**
Mae cynnig arbennig neu becyn yn rhywle arall yn y DU wedi dylanwadu ar fy mhenderfyniad

### Cam cynllunio'r trip nesaf i Gymru (% ystyrwyr i Gymru)




### Y 3 prif le y bwriedir ymweld â nhw

**68%** Caerdydd

**57%** De Cymru

**40%** Gorllewin Cymru

### Hyd y trip cynlluniedig i Gymru ymhlith 'ystyrwyr i Gymru' (CG2) (Sylfaen: n=197)

**5%**
Yn cynllunio cymryd gwyliau byr i Gymru (1-3 noson)

**95%**
Yn cynllunio cymryd gwyliau i Gymru (4+ noson)

**8** nights
Hyd cyfartalog trip cynlluniedig i Gymru (nosweithiau)

**Y prif ffynonellau gwybodaeth y mae'r farchnad Almaenaidd yn eu defnyddio i gynllunio tripiau (%)**

| 78% | 63% | 56% | 35% |
|---|---|---|---|
| Gwefannau/apiau | Argymhelliad personol | Gwybodaeth brintiedig | E-bost neu gyfryngau cymdeithasol |

## Cyfathrebiadau a welwyd/glywyd am Gymru yn ddiweddar




**14%**

Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd)

**43%**

Yn nodi nad ydyn nhw erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr i Gymru ond yr hoffen nhw wneud hynny.

**Y dull teithio a ragwelir i Gymru**

| | |
|---|---|
| **39%** | Car – wedi'i logi/tacsi wedi'i rentu |
| **38%** | Car eu hunain/teulu/cwmni |
| **24%** | Trên |

10


# 3. Dylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr

## Prif ddylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr

3.1 'Arian personol' yw'r ffactor sydd fwyaf tebygol o ddylanwadu ar benderfyniadau gwyliau a gwyliau byr y farchnad Almaenaidd yn 2020 (nododd 77% bod ganddo lawer/ychydig o ddylanwad), ac yna 'pryderon ynghylch diogelwch' (67%).


3.2 Pryderon amgylcheddol (58%) yw'r trydydd dylanwad mwyaf, sy'n bwysicach o lawer i'r farchnad Almaenaidd na marchnadoedd y DU ac Iwerddon.

3.3 Er bod 'Brexit', 'cyfraddau cyfnewid' a 'chyflwr yr economi' yn llai dylanwadol, serch hynny maent i gyd yn dylanwadu ar y farchnad Almaenaidd (pob un yn ddylanwadol iawn/ychydig -ar gyfer hanner y farchnad).





## Bwriad i ymweld â'r DU

3.4 Cyn yr achosion cychwynnol o COVID-19 yn Ewrop, roedd disgwyl i ychydig dros hanner y farchnad Almaenaidd fynd ar nifer debyg o dripiau i'r DU yn ystod y 12 mis nesaf fel y gwnaethant yn y 12 mis cyn cwblhau'r arolwg. Nododd un o bob pedwar (25%) eu bod yn rhagweld mynd ar fwy o dripiau i'r DU yn ystod y 12 mis dilynol, ychydig yn fwy na'r rhai a ddywedodd eu bod yn rhagweld cymryd llai (22%). Mae hyn, yn fras, yn debyg i fwriadau teithio i dir mawr Ewrop. Mae cyfran uwch o'r farchnad Almaenaidd yn bwriadu cymryd mwy o wyliau domestig (34%). Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai tripiau i weddill y byd yn gostwng, gyda 39% yn dweud eu bod yn bwriadu cymryd llai o dripiau. Gall y llai o dripiau i weddill y byd fod yn gysylltiedig â phryderon am yr amgylchedd a theithio hir.




3.5 Rydym wedi adolygu canlyniadau gan y gwahanol segmentau targed a nodwyd gan Visit Britain a nodir gwahaniaethau allweddol yn yr adroddiad. I gael rhagor o fanylion am y segmentau hyn, ewch i https://www.visitbritain.org/understanding-our-customer-segments


3.6 Ar draws y gwahanol segmentau, Ymddiddorwyr Diwylliant yw'r rhai mwyaf tebygol o fynd ar fwy o dripiau i'r DU yn ystod y 12 mis nesaf (38% o'i gymharu â 25% ar gyfartaledd) ynghyd â Cheiswyr antur (37% o'i gymharu â 25% ar gyfartaledd). Yn ddiddorol, pan gymharwn hyn â'r berthynas ag ymweld â Chymru yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, Ceiswyr Cyffro a'r Ymddiddorwyr Diwylliant sydd â'r niferoedd mwyaf o ymwelwyr blaenorol sy'n bwriadu dychwelyd i Gymru yn y dyfodol, gan awgrymu cyfle i fanteisio ar eu bwriadau cryf o ran tripiau yn y DU drwy annog trip i Gymru ar gyfer y ddau segment hyn.



## Rhwystrau i ymweld â’r DU

3.7 Gan gyfeirio'n benodol at wyliau yn y DU, nodwyd mai 'amgylchiadau personol' oedd y prif rwystr i ymweld ymhlith y farchnad Almaenaidd (30% yn nodi hyn), ac yna 'mae'n rhy ddrud yn y DU yn gyffredinol' (27%) ac 'ansicrwydd ynghylch Brexit' (25%). Nododd 1 o bob 4 nodedig 'amhariad i deithio o ganlyniad i Brexit' (23%) fel rhwystr posibl allweddol.

3.8 Gyda'i gilydd, ystyrir bod rhesymau sy'n benodol i Brexit yn rhwystr i 48% o’r Almaenaidd. Mae cost trip gwyliau i'r DU ac annibynadwyedd y tywydd hefyd yn bryderon.




## Rhesymau pam mae’r DU yn lle mor atyniadol i ymweld ag ef

3.9 Ffactorau cyrchfan sy'n dominyddu'r 10 prif reswm pam yr ystyrir bod y DU yn lle deniadol i ymweld ag ef ar gyfer y farchnad Almaenaidd. Soniwyd am bob un o’r rhain: 'Llawer o wahanol leoedd i ymweld â nhw' (44%), 'mae'n gyrchfan groesawgar' (39%) a 'rhai o fy hoff lefydd yn y DU' (24%). Mae ffactorau cyfleustra a gwerth hefyd yn ddylanwad cryf – mae 30% yn amlygu 'cysylltiadau hedfan cyfleus' a 24% yn nodi

bod y DU yn 'cynnig gwerth da am arian'.   Yn gysylltiedig â phryder am yr amgylchedd, mae 3 o bob 10 (30%) yn gweld y DU fel lle deniadol i ymweld ag ef oherwydd ei fod 'gerllaw ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd'.

3.10 Yn nodedig, cyflwynodd y farchnad Almaenaidd fwy o resymau pam mae'r DU yn apelio na rhwystrau i ymweld.

3.11 Ceir rhai gwahaniaethau ar draws segmentau. Anturiaethwyr sydd fwyaf tebygol o weld apêl y DU oherwydd yr amrywiol leoedd i ymweld â nhw (56%) tra bod y rhai sy'n ymweld yn fwy tebygol o gael eu denu gan y cysylltiadau hedfan cyfleus (39%). Yn y cyfamser, caiff yr Ymddiddorwyr Diwylliant eu denu i'r DU fwyaf gan ei fod yn gyrchfan ddiogel i deithio iddo (36%).

**Rhesymau pam mae'r DU yn lle mor atyniadol i ymweld ag ef (%)**




## Mathau o gyrchfannau gwyliau sy'n cael eu hystyried yn y DU

3.12 Y farchnad Almaenaidd sydd fwyaf tebygol o ystyried o ddifrif mynd ar drip i ardaloedd trefol y DU am wyliau neu wyliau byr yn ystod y blynyddoedd nesaf – 'trefi hanesyddol a threftadaeth' yw'r rhai mwyaf deniadol (68% yn nodi hyn), ac yna 'dinasoedd a threfi mawr' (61%), yn arbennig o fewn y DU ac Iwerddon, Cymru yw'r wlad sydd leiaf tebygol o fod yn gysylltiedig â phob un o'r mathau hyn o gyrchfannau.

3.13 'Arfordir golygfaol a harbwrs' yw'r rhai mwyaf atyniadol nesaf ar gyfer teithio i'r DU (56%), ac yna 'cefn gwlad a phentrefi golygfaol' (53%).  Mae cysylltiadau â Chymru yn gymharol uwch ar gyfer pob un o'r rhain nag y maent ar gyfer ardaloedd trefol. Mae ychydig o dan hanner y farchnad Almaenaidd yn ystyried gwyliau teithiol (47%)

sy'n awgrymu cyfle i Croeso Cymru hyrwyddo'r math hwn o brofiad gwyliau a llwybrau Ffordd Cymru.

3.14 Mae dros draean o'r farchnad Almaenaidd yn canfod tiroedd gwylltion a natur yn fath deniadol o gyrchfan (37%). Mae'n werth nodi mai'r Alban ac Iwerddon sy'n gysylltiedig fwyaf â'r math hwn o gyrchfan, ac yna Cymru ac yna Lloegr. Mae llai o apêl gan y farchnad Almaenaidd i gymryd gwyliau yn y DU mewn gwestai gwyliau mawr a phentrefi gwyliau hunangynhwysol.

## Mathau o gyrchfannau gwyliau a ystyriwyd ar gyfer trip i'r DU (%)




3.15 Anturwyr (74%) ac Archwiliwyr (72%) sydd fwyaf tebygol o chwilio am drefi Hanesyddol a Threftadaeth (o'i gymharu â chyfartaledd o 67%). Y rhai sy'n mynd i weld golygfeydd (68%) ac Ymddiddorwyr Diwylliant (66%) sydd fwyaf tebygol o chwilio am Ddinasoedd a Threfi Mawr. Wrth edrych ar gysylltiadau â Chymru, Ymddiddorwyr Diwylliant (56%) ac Anturwyr (51%) sydd â'r cysylltiad uchaf o Gymru fel cyrchfan ar gyfer gwyliau teithiol. Ceiswyr Cyffro sydd fwy tebygol o fod â diddordeb mewn gwestai mawr a chanolfannau gwyliau yn hytrach na segmentau eraill.

**Mathau o gyrchfannau gwyliau a ystyriwyd ar gyfer trip i'r DU fesul segment (%)**

*(CB1) (Sylfaen: Anturwyr n=344 ; Ceiswyr Cyffro n=200 ; Archwilwyr n=246 ; Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd n=114 ; Ymddiddorwyr Diwylliant n=96 )*

| | ANTURWYR | CEISWYR CYFFRO | ARCHWILWYR | RHAI SY'N MYND I WELD GOLYGFEYDD | YMDDIDDORWYR DIWYLLIANT |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trefi hanesyddol a threftadaeth** | 74% | 58% | 72% | 67% | 63% |
| **Dinasoedd a threfi mawr** | 63% | 60% | 55% | 68% | 66% |
| **Arfordir golygfaol a harbwrs** | 64% | 41% | 63% | 44% | 50% |
| **Cefn Gwlad a phentrefi golygfaol** | 62% | 43% | 59% | 38% | 48% |
| **Gwyliau teithiol** | 53% | 44% | 48% | 32% | 45% |
| **Tiroedd gwyllt a natur** | 42% | 35% | 38% | 23% | 34% |
| **Antur mynydd** | 34% | 33% | 34% | 16% | 42% |
| **Cyrchfannau glan môr traddodiadol** | 32% | 32% | 29% | 31% | 35% |
| **Gwesty cyrchfan fawr** | 9% | 27% | 8% | 15% | 24% |
| **Pentref/canolfan gwyliau** | 8% | 22% | 9% | 23% | 18% |

## Mathau o brofiadau sy'n cael eu hystyried yn y DU


3.16 Mae'r farchnad Almaenaidd yn ystyried amrywiaeth o brofiadau ar wyliau neu wyliau byr yn y DU, a'r mwyaf poblogaidd yw 'ymweld â safleoedd treftadaeth ac atyniadau' (58%) a 'cherdded, heicio neu grwydro' (55%). O'r rheini sydd â phlant yn eu cartref, (tua chwarter y farchnad Almaenaidd), mae chwilio am weithgareddau creadigol, gweithgareddau antur neu weithgareddau cadwraeth yn ogystal ag atyniadau teuluol yn bwysicach nag i'r rhai heb blant.

3.17 Mae y farchnad Almaenaidd hefyd yn rhoi pwys ar roi cynnig ar fwyd a diod lleol, gyda 50% yn chwilio am y profiadau hyn. Mae hyn yn amlygu cyfle i arddangos y gorau o gynnyrch lleol Cymru.

3.18 Er bod cerdded, heicio a chrwydro yn graddio'n uchel yn unigol, wrth gynnwys gweithgareddau eraill sy'n cyfeirio'n benodol at ymarfer corff (cerdded, heicio, crwydro, seiclo, chwaraeon dŵr, golff a gweithgareddau antur), mae'r rhain o ddiddordeb i 71% o'r farchnad. Mae hyn yn tynnu sylw at gyfle gwirioneddol i Gymru hyrwyddo eu hapêl i'r farchnad Almaenaidd.

3.19 Gyda dros 40% â diddordeb mewn archwilio ardaloedd golygfaol mewn car ac ychydig o dan hanner â diddordeb mewn gwyliau teithiol (47%), efallai y bydd cyfle da i hyrwyddo Llwybrau Ffordd Cymru i'r farchnad Almaenaidd.

**Mathau o brofiadau yr hoffai pobl eu gwneud fwyaf yn y DU (%)**





## Dylanwadau ar wyliau

3.20 Yn gysylltiedig â'u hoff fathau o gyrchfannau a phrofiadau, 'tirnodau ac atyniadau enwog' (57%) a 'golygfeydd a phrofiadau anhygoel' (50%) yw'r ffactorau mwyaf dylanwadol pan fydd ymwelwyr o'r Almaen yn dewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU. Pan gaiff ei grwpio gyda'i gilydd, mae treftadaeth yn ddylanwadol ar gyfer dwy ran o dair (68%) o’r farchnad Almaenaidd (46% yn nodi cyrchfan sy'n gyfoethog o ran hanes a threftadaeth a 57% yn nodi tirnodau ac atyniadau enwog). Mae ychydig o dan hanner yn y cyfamser (49%) yn cael eu dylanwadu gan ansawdd y llety (18% yn gwerthfawrogi llety o ansawdd uchel a 39% yn gwerthfawrogi llety gyda swyn a chymeriad).

3.21 Yn wahanol i farchnadoedd y DU ac Iwerddon, mae gwerth am arian yn ffactor llai pwysig i deithwyr Almaeneg (29%). Yn hytrach, mae’r farchnad Almaenaidd yn blaenoriaethu croesawu pobl a ffactorau diwylliannol wrth ystyried taith i'r DU.

3.22 Mae ymwelwyr o'r Almaen yn llawer mwy awyr agored o'u cymharu â marchnadoedd eraill, gan flaenoriaethu cerdded, heicio a chrwydro yn ogystal â golygfeydd a thirweddau anhygoel. Er syndod, mae cyrchfan ecogyfeillgar yn llai dylanwadol wrth ddewis gwyliau yn y DU, er gwaethaf newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd yn cael ei nodi fel ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar ymddygiad gwyliau cyffredinol Almaenwyr dros y 12 mis nesaf.



Y ffactorau mwyaf dylanwadol wrth ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU (%)
Tirnodau ac atyniadau ymwelwyr enwog
57%
Golygfeydd a thirweddau anhygoel
50%
Cyrchfan sy'n llawn hanes a threftadaeth
46%
Llety gyda swyn a chymeriad
39%
Llefydd gwych i archwilio oddi ar y llwybr…
36%
Pobl sy'n groesawgar iawn
35%
Profiad diwylliannol dilys
31%
Llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud
30%
Rhywle y gallwch ymweld ag ef ar bob adeg…
29%
Gwerth gwych am arian
29%
Lleoliad gyda diwylliant ac adloniant ffyniannus
23%
Cyfleoedd i gwrdd a chymdeithasu ag eraill
22%
Llety o ansawdd uchel
18%
Lleoedd sy'n enwog am eu bwyd a'u diod
18%
Cyrchfan sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd
16%
Cyfleoedd i archwilio fy hobïau/diddordebau
15%


# 4. Ystyriaeth o Gymru

## Cynefindra a pherthynas â gwledydd dethol


4.1 Mae’r farchnad Almaenaidd yn llai cyfarwydd â Chymru nag y maent gydag unrhyw un o'r gwledydd eraill yn y DU ac Iwerddon gyda 24% yn dweud eu bod yn adnabod Cymru'n dda iawn/gweddol dda. Mae cynefindra uchaf â Lloegr (46%), tra bod Iwerddon a'r Alban yr un mor gyfarwydd i un o bob tri Almaenwr. Mae gan Gymru hefyd gyfran is o ymwelwyr blaenorol o'r Almaen na'r Alban, Iwerddon ac yn enwedig Lloegr, tua 30%.

4.2 Yn gyffredinol, mae cynefindra'n cydberthyn ag ymweliadau. O'r rhai sy'n ystyried yn gryf ymweld â Chymru yn y dyfodol, mae eu cynefindra â Chymru yn dal yn llawer is nag ar gyfer unrhyw wlad arall, gan dynnu sylw at yr angen i addysgu’r farchnad Almaenaidd am bethau i'w gwneud yng Nghymru. Yn gadarnhaol, nid yw dros 2 o bob 5 o’r farchnad Almaenaidd wedi ymweld â Chymru ond hoffent wneud hynny, gan awgrymu bod cyfle i dyfu'n sylweddol o'r farchnad hon.





4.3 Wrth edrych ar ymweliadau blaenorol ar draws segmentau, Ceiswyr Cyffro (45%) ac Ymddiddorwyr Diwylliant (40%) sydd â'r gyfran uchaf sydd wedi ymweld â Chymru'n flaenorol. Fodd bynnag, mae Anturwyr (50%) ac Archwiliwyr (47%) â'r gyfran uchaf o bobl nad ydynt wedi ymweld â Chymru o'r blaen ond a hoffai wneud hynny yn y dyfodol. Y rhai sy'n mynd i weld golygfeydd yw'r gyfran uchaf nad ydynt wedi ymweld o'r blaen ac nad ydynt yn bwriadu ymweld yn y dyfodol. Mae cyfle i ddenu amrywiaeth o segmentau sy'n agored i ymweld â Chymru yn y dyfodol.



4.4 Mae Lloegr, ac yna Iwerddon ac yna'r Alban yn fwy tebygol na Chymru o fod wedi denu ymweliadau blaenorol o'r Almaen gan gynnwys ymweliadau diweddar dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cymru sydd â'r gyfran uchaf nad ydynt erioed wedi ymweld â hi'n flaenorol (18%) o'i gymharu â'r Alban (15%), Iwerddon (13%) a Lloegr (6%).




4.5 Wrth edrych ar draws segmentau, Ymddiddorwyr Diwylliant a Cheiswyr Cyffro yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o fod wedi ymweld yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, Ymddiddorwyr Diwylliant ynghyd ag Anturwyr sydd â'r gyfran uchaf nad ydynt erioed wedi ymweld â Chymru o'r blaen. Archwiliwyr a'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd sydd â'r gyfran uchaf sydd wedi ymweld â Chymru'n flaenorol er bod cyfran uchel o'r ymweliadau hyn amser maith yn ôl.



## Ystyriaeth o gyrchfannau’r DU ar gyfer gwyliau


4.6 Mae’r ystyriaeth o Gymru fel lle i ymweld gan y farchnad Almaenaidd (33%) yn llawer is na phob un o'r gwledydd eraill yn y DU (Yr Alban 55% a Lloegr 63%) ac Iwerddon (54%), sy'n nodi'r her i Croeso Cymru ddenu ymwelwyr o’r farchnad Almaenaidd.

4.7 Anturwyr yw'r segment Almaenaidd sydd fwyaf tebygol o ystyried Cymru o ddifrif ar gyfer gwyliau neu wyliau byr (39% yn datgan hynny) a hanner yn datgan 'nad ydyn nhw erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr yno ond yr hoffent wneud hynny. Dilynir hyn gan Archwiliwyr, gyda 34% yn ystyried o ddifrif, ac ychydig o dan hanner yn dweud nad ydynt erioed wedi bod i Gymru ar wyliau byr neu wyliau ond yr hoffent wneud hynny.  Y rhai sy’n mynd i weld golygfeydd yw'r segment lleiaf tebygol o fod yn ystyried ymweld â Chymru o ddifrif (23%).

4.8 Mae ymwelwyr blaenorol yr un mor debygol o fod yn ystyried ymweliad â Chymru o ddifrif fel y rhai na fu erioed o'r blaen.

4.9 Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y farchnad Almaenaidd yn llawer mwy tebygol o fod yn ystyried ymweld â'r Alban neu Iwerddon o ddifrif p'un a oeddent wedi bod o'r blaen ai peidio.

## Cyfran sy'n ystyried ymweld â phob gwlad o ddifrif (%)



## Proffil y rhai sy'n ystyried Cymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau


4.2 Mae mwyafrif ystyrwyr i Gymru yn fenywod (53%), ac mae ganddynt broffil oedran ychydig yn hŷn, gyda bron i hanner (47%) yn 55+ oed. Mae hyn yn wahanol i'r farchnad Wyddelig sy'n gyfran uwch yn y grwpiau oedran teulu allweddol 35-54 (45%) o'i gymharu â thraean (34%) o ystyrwyr i Gymru o'r Almaen. Mae pobl iau 16-34 oed yn ffurfio tua un o bob pump (19%) o ystyrwyr o'r Almaen.

4.11 Mae dros ddwy ran o dair o'r rhai sy'n ystyried trip i Gymru naill ai'n Anturiaethwyr (41%) neu Archwiliwyr (26%). Mae Ceiswyr Cyffro yn ffurfio tua un o bob pump o ystyrwyr i Gymru (18%), tra mai Ymddiddorwyr Diwylliant a'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd yw'r segmentau lleiaf o fewn cynulleidfa 'Ystyrwyr i Gymru'.

4.12 Mae ystyrwyr i Gymru yn fwy tebygol o fod o ranbarth preswyl daearyddol De a Gorllewin yr Almaen. Mae hyn yn unol ag ystyriaeth ar gyfer gwledydd eraill y DU, a De a Gorllewin yr Almaen yw'r ystyrwyr cryfaf hefyd sy'n ystyried gwyliau byr neu wyliau.

4.13 Nid oes gan y mwyafrif o'r rhai sy'n ystyried ymweld â Chymru (77%) blant gartref, yn unol â phroffil oedran hŷn. Mae gan lai nag un o bob pump (23%) ystyrwyr o'r Almaen blant gartref, sy'n arbennig o is na thros draean (36%) o ystyrwyr o Iwerddon.

**Gwybodaeth proffil 'Ystyrwyr i Gymru'**



## Proffil ystyrwyr ar gyfer pob gwlad

4.14 Mae proffiliau tebyg rhwng y rhai sy'n ystyried Cymru, yr Alban ac Iwerddon.

4.15 O'i gymharu â'r holl 'ystyrwyr i'r DU', mae'r rhai sy'n ystyried Cymru yn fwy tebygol o fod yn:

- Anturwyr (41% o'i gymharu â 34% yn y farchnad)
- 55+ oed (47% o'i gymharu â 43%)
- O ddosbarthiad rhanbarthol tebyg i ystyrwyr ar gyfer gweddill y DU

4.16 I'r gwrthwyneb, mae ystyrwyr yn llai tebygol na'r farchnad gyffredinol o fod yn:

- Y rhai sy'n mynd i weld golygfeydd (8% o'i gymharu ag 11% yn y farchnad)
- 16-34 oed (19% o'i gymharu â 24%)
- O Ddwyrain yr Almaen (13% o'i gymharu â 15%)

4.17 Mae pob gwlad yn mynegeio ychydig yn uwch na Chymru ar gyfer ystyrwyr sy'n Ymddiddorwyr Diwylliant.

| | | Pob un ystyriwr i'r DU ac Iwerddon | **Ystyrwyr i Gymru** | Ystyrwyr i Loegr | Ystyrwyr i Iwerddon | Ystyrwyr i'r Alban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SEGMENT** | Anturwyr | 34% | **41%** | 35% | 40% | 41% |
| | Ceiswyr Cyffro | 20% | **18%** | 19% | 18% | 15% |
| | Archwilwyr | 25% | **26%** | 24% | 25% | 25% |
| | Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd | 11% | **8%** | 13% | 8% | 10% |
| | Ymddiddorwyr Diwylliant | 10% | **7%** | 9% | 9% | 9% |
| **RHYW** | Gwryw | 49% | **47%** | 49% | 45% | 48% |
| | Benyw | 51% | **53%** | 51% | 55% | 52% |
| **OEDRAN** | 16-34 | 24% | **19%** | 23% | 21% | 19% |
| | 35-44 | 14% | **14%** | 14% | 15% | 13% |
| | 45-54 | 19% | **20%** | 18% | 20% | 22% |
| | 55-64 | 17% | **19%** | 18% | 19% | 18% |
| | 65+ | 26% | **28%** | 27% | 25% | 28% |
| **PLANT AR YR AELWYD** | Plant | 24% | **23%** | 22% | 23% | 22% |
| | Dim plant | 76% | **77%** | 78% | 77% | 78% |
| **RHANBARTH** | Gogledd yr Almaen | 18% | **19%** | 18% | 18% | 19% |
| | Gorllewin yr Almaen | 28% | **28%** | 28% | 27% | 28% |
| | Canol yr Almaen | 10% | **11%** | 10% | 10% | 11% |
| | Dwyrain yr Almaen | 15% | **13%** | 17% | 15% | 13% |
| | De'r Almaen | 29% | **29%** | 28% | 31% | 31% |

## Rhesymau dros beidio ag ystyried ymweld â Chymru

4.18 Nid oedd unrhyw resymau arweiniol llethol dros bobl yn peidio ag ystyried ymweld â Chymru. Diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn sydd i'w wneud yw'r rheswm a grybwyllir amlaf dros beidio ag ymweld (27% yn nodi hyn).


4.19 Yn gadarnhaol, y cyd-reswm cyntaf yw bod Cymru ar y rhestr ond eu bod yn gweld lleoedd eraill yn gyntaf (27%). Drwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig, mae'n bosibl y bydd Cymru'n symud i fyny'r rhestr o leoedd i ymweld â nhw.

4.20 Roedd ychydig dros un o bob pedwar (26%) yn credu bod Cymru'n ddrytach na chyrchfannau eraill y maent yn eu hystyried, sy'n rhwystr amlycach i ystyrwyr o’r Almaen nag Iwerddon.

4.21 Ymhlith y rhesymau nodedig eraill dros beidio ag ymweld mae'r apêl (23%) a chynigion arbennig (22%) mewn mannau eraill yn y DU, sy'n dylanwadu eu penderfyniad ac na fyddant yn treulio digon o amser yn y DU i ymweld â Chymru (19%). Mae hyn yn dangos bod llawer o ddarpar ymwelwyr yn rhoi cyrchfannau eraill yn y DU ar y blaen i ymweld â Chymru.

4.22 Mae ymwybyddiaeth o'r hyn sydd i'w wneud yng Nghymru ar ei isaf ymhlith pobl sy'n ymweld. Y segment hwn hefyd yw'r mwyaf tebygol o chwilio am opsiynau yn y DU sy'n haws i deithio’n uniongyrchol iddyn nhw.


4.23 Ffactorau a oedd yn llai pwysig i deithwyr gwyliau Almaenig/gwyliau byr nad oeddent yn dewis Cymru oedd ei bod yn rhy brysur/gorlawn (dim ond 4%) neu nad oes llety addas ar gael (dim ond 5%).



# 5. Ymweld â Chymru

## Amseriad trip disgwyliedig i Gymru


5.1 O'r rhai yn y farchnad Almaenaidd a oedd yn ystyried ymweld â Chymru o ddifrif yn ystod y 12 mis nesaf, dim ond 2% oedd eisoes wedi archebu taith ar gyfer 2020 ar adeg yr arolwg ddechrau mis Mawrth. Roedd 1 o bob 4 arall yn cynllunio taith yn 2020 ond nid oeddent wedi'i harchebu eto. Roedd y gweddill naill ai'n cynllunio taith yn 2021 a thu hwnt, neu nid oeddent yn siŵr. Disgwylir i effaith COVID-19 fod wedi bod yn rhwystr mawr i allu'r farchnad Almaenaidd i fod wedi cymryd gwyliau yn y DU yn 2020.




## Cam cynllunio'r trip nesaf i Gymru

5.2 Yn unol â phan ragwelodd ystyrwyr ymweld â Chymru, dim ond lleiafrif bach oedd wedi archebu eu llety (4%). Yn gadarnhaol, dywedodd 2 o bob 5 ystyriwr y byddent yn bendant yn ymweld â Chymru, er nad oeddent eto wedi archebu eu llety. Fodd bynnag, nid oedd dros hanner wedi archebu lle ac roeddent yn ystyried lleoedd eraill.

5.3 Ymhlith y segmentau, mae Archwiliwyr ac Anturwyr yn fwy tebygol o barhau i fod ar y cam 'heb archebu ac yn ystyried lleoedd eraill'. Mae Ceiswyr Cyffro a'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd yn fwy tebygol o fod heb archebu llety ond byddant yn bendant yn ymweld â Chymru.




## Ble y bwriedir ymweld ag ef yng Nghymru

5.4 Ymwelwyr o’r farchnad Almaenaidd sydd fwyaf tebygol o fod yn bwriadu ymweld ag ardaloedd yn Ne Cymru, ond mae diddordeb mewn ymweld ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Y diddordeb yw bod gwyliau teithiol mewn car yn awgrymu y gellid annog ymwelwyr Almaeneg i archwilio sawl rhan wahanol o Gymru yn ystod eu taith neu drwy ymweliadau mynych.

5.5 Caerdydd yw'r gyrchfan y maent fwyaf tebygol o ymweld â hi, 68% yn nodi y byddent yn gwneud hynny, ac yna De Cymru (57%) a Gorllewin Cymru (40%). Gogledd a Chanol Cymru oedd y lleiaf tebygol o gael ymweliad gydag ychydig o dan draean yn ystyried yr ardaloedd hynny o ddifrif. O ystyried diddordeb y farchnad Almaenaidd yn yr awyr agored, gallai hyrwyddo'r ardaloedd hynny gynyddu diddordeb, yn enwedig o ystyried pa mor boblogaidd yw Gogledd Cymru ymhlith marchnadoedd eraill.

5.6 Pan ofynnwyd iddynt ysgrifennu ymhle yng Nghymru y byddent yn ystyried ymweld, mae’r farchnad Almaenaidd yn sôn yn bennaf am Gaerdydd. Ynghyd â hyn maent yn sôn am gyfuniadau o ymweld â'r brifddinas a'r Wyddfa neu daith ffordd i archwilio cymaint â phosibl.


**Ardaloedd y mae 'Ystyrwyr i Gymru' yn ystyried ymweld â nhw o ddifrif (%)**



## Ble arall y bwriedir ymweld ag ef yn y DU

5.7 Mae bron pob un o'r rhai sy'n ystyried trip i Gymru yn bwriadu ymweld â rhannau eraill o'r DU yn ystod eu taith arfaethedig i'r DU. Llundain (42%) a'r Alban (39%) ac Arfordir De Lloegr (31%) ac Iwerddon yw'r ardaloedd mwyaf poblogaidd i ymweld â nhw hefyd tra mai'r ardaloedd lleiaf poblogaidd a nodwyd yw y Cotswolds/Canol Lloegr ac Ynys Manaw (9%). Dim ond 2% sy'n dewis ardaloedd eraill yn y DU nas hamlygwyd yma, gan awgrymu bod y rhan fwyaf o Almaenwyr yn targedu'r cyrchfannau 'ticio bocsys' mwyaf adnabyddus.

5.8 Mae'r cynlluniau i ymweld â chyrchfannau lluosog yn dangos y cyfle i hyrwyddo tripiau sy'n cyfuno trip i Gymru â chyrchfannau poblogaidd eraill yn y DU ac Iwerddon.



## Cyfansoddiad parti a ragwelir ar gyfer y trip nesaf i Gymru

5.9 Mae ystyrwyr i Gymru o'r Almaen yn fwyaf tebygol o ymweld gyda'u partner (64%). Mae tua un o bob pump yn debygol o ymweld gyda'u plant (22%). Roedd un o bob pum teithiwr Almaenaidd (20%) yn debygol o ymweld gyda'u ffrind/ffrindiau.

**Cyfansoddiad parti a ragwelir (Y 5 Uchaf)**


**(CG6) (Sylfaen: n=327)**





## Dull teithio a ragwelir i Gymru

5.10 Y farchnad Almaenaidd sydd fwyaf tebygol o fod yn bwriadu teithio mewn awyren yn uniongyrchol i Gymru (42% yn nodi hyn), ac yna mewn awyren i faes awyr arall yn y DU (20%). Yn ddiddorol, mae nifer y rhai sy'n ystyried cyrraedd Cymru drwy daith awyren i faes awyr arall yn y DU yn debyg i'r rhai a fyddai'n dewis teithio ar y môr gyda'u car eu hunain.

**Dull teithio a ragwelir i Gymru**
**(CG10) (Sylfaen: n=327)**



5.11 Er gwaethaf agosrwydd maes awyr Bryste i Gymru, mae Heathrow yn llawer mwy poblogaidd i hedfan iddo, yn ogystal â Chaeredin, gan nodi ymhellach fod potensial mawr i gyfuno trip i Gymru â rhannau eraill o'r DU.




## Hyd trip a ragwelir i Gymru

5.12 O'r rhai o fewn y farchnad Almaenaidd sy'n ystyried trip i Gymru, mae'r mwyafrif llethol (95%) yn cynllunio mynd ar drip o 4+ noson. Mae ystyrwyr i Gymru yn rhagweld y byddant yn cymryd trip hyd cyfartalog o ychydig dros wythnos yng Nghymru, sy'n sylweddol uwch nag ymhlith marchnadoedd Iwerddon a'r DU.

**Hyd trip arfaethedig i Gymru ymhlith 'ystyrwyr i Gymru'**


**(CG2) (Sylfaen: n=327)**

| 5% | 95% | 8 nights |
|---|---|---|
| **Yn cynllunio cymryd gwyliau byr i Gymru (1-3 noson)** | **Yn cynllunio cymryd gwyliau i Gymru (4+ noson)** | **Hyd cyfartalog trip arfaethedig i Gymru (nosweithiau)** |

## Ffynonellau gwybodaeth disgwyliedig i gynllunio'r trip nesaf i Gymru

5.13 Y farchnad Almaenaidd sy'n rhagweld ymweliad â Chymru sydd fwyaf tebygol o gynllunio drwy wefannau ac apiau, 78% yn nodi hyn yn ogystal â thrwy argymhelliad personol (63%). Mae gwybodaeth brintiedig yn bwysicach i'r farchnad Almaenaidd (56%) nag ydyw ar gyfer marchnad Iwerddon (34%) wrth gynllunio trip, tra bod e-bost neu gyfryngau cymdeithasol yn llai pwysig i'r farchnad Almaenaidd (35%) na marchnad Iwerddon (43%).

**Ffynonellau gwybodaeth net (%)**




5.14 Er mai sgyrsiau gyda ffrindiau a theulu sydd wedi ymweld yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf a ragwelir ar gyfer trip i Gymru gyda 49% yn nodi hyn, yr ail ffynhonnell bwysicaf yw llyfrau canllaw/taflenni gwybodaeth printiedig (44%). Yn y cyfamser dim ond un o bob pump sy'n bwriadu ymweld â gwefan y bwrdd croeso.

### Ffynonellau gwybodaeth disgwyliedig ar gyfer tripiau i Gymru (%)



## Sianeli archebu disgwyliedig ar gyfer y trip nesaf i Gymru

5.15 Gwefannau teithio yw'r sianeli y mae ystyrwyr i Gymru yn fwyaf tebygol o'u defnyddio i archebu llety gyda (54% yn nodi hyn), ac yna 'yn uniongyrchol gyda darparwr llety' (34%). Hefyd, mae asiantau teithio yn fwy poblogaidd fel ffynhonnell archebu gan ymwelwyr Almaeneg gydag un o bob pump yn rhagweld archebu yn y siop neu drwy wefan asiant.

**Ffynonellau sianeli archebu llety disgwyliedig ar gyfer tripiau i Gymru (% rhestredig)**




5.16 Mae archebu'n uniongyrchol gyda darparwyr llety neu drwy wefan teithio yn fwy poblogaidd ar draws pob rhan o'r farchnad.

5.17 Anturwyr yw'r bwriadwyr mwyaf tebygol o archebu drwy wefan teithio (59% o'i gymharu â 54% ar gyfartaledd). Archwiliwyr a'r Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd yw'r rhai mwyaf tebygol o archebu mewn siop asiant teithio. Ceiswyr Cyffro ac Ymddiddorwyr Diwylliant yn y cyfamser yw'r rhai mwyaf tebygol o gynllunio archebu drwy wefan Homestay.

## Ffynonellau'r 3 sianel archebu llety uchaf a ragwelir ar gyfer tripiau i Gymru fesul segment (% rhestredig)

*(CG5) (Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n ystyried trip i Gymru o ddifrif Anturwyr n=135 ; Ceiswyr Cyffro n=59 ; Archwiliwyr n=84 ; Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd n=26*; Ymddiddorwyr Diwylliant n=23*)*

**Gofal, sylfaen yn isel*


| Anturwyr | Ceiswyr Cyffro | Archwilwyr | Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd | Ymddiddorwyr Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| Gwefan teithio **59%** | Gwefan teithio **49%** | Gwefan teithio **50%** | Gwefan teithio **50%** | Gwefan teithio **52%** |
| Yn uniongyrchol gyda darparwr llety **38%** | Yn uniongyrchol gyda darparwr llety **39%** | Yn uniongyrchol gyda darparwr llety **30%** | Yn uniongyrchol gyda darparwr llety **31%** | Gwefan Homestay **26%** |
| Canolfan wybodaeth i dwristiaid/bwrdd twristiaeth **24%** | Gwefan Homestay **31%** | Mewn siop asiant teithio **29%** | Mewn siop asiant teithio **23%** | Yn uniongyrchol gyda darparwr llety **22%** |

# 6. Cyswllt gyda Croeso Cymru

## Gohebiaeth ddiweddar a welwyd/a glywyd am Gymru yn ddiweddar

6.1 Heb brocio, ychydig o dan 1 o bob 5 (18%) o'r farchnad Almaenaidd sy'n cofio gweld hysbysebion teledu am Gymru yn ddiweddar ac 17% yn cofio clywed am Gymru mewn rhaglen deledu neu ffilm. Roedd darllen erthygl mewn papur newydd neu gylchgrawn yn drydydd uchaf ar gyfer galw i gof heb brocio (16%). Roedd llai o alw i gof ar gyfer clywed am Gymru mewn hysbysebu awyr agored (5%) mewn hysbysebion sinema (6%) ac ar y radio (6%).

6.2 Yn gyffredinol, Ceiswyr Cyffro ac Ymddiddorwyr Diwylliant sydd â'r galw i gof uchaf, gyda dim ond traean yn dweud nad oeddent wedi gweld 'dim un o'r rhain'. Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd (64% dim un o'r rhain) ac Archwiliwyr (61% dim un o'r rhain) sydd â'r galw i gof isaf.



## Yn cofio hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd)

6.3 Dim ond 14% o’r farchnad Almaenaidd sy'n cofio gweld hysbyseb teledu diweddar Croeso Cymru, er y bydd amseriad yr ymchwil yn effeithio ar hyn ddechrau mis Mawrth 2020. Er syndod, Anturiaethwyr ac Archwiliwyr sydd fwyaf tebygol o ystyried Cymru ar gyfer trip yw'r lleiaf tebygol o ddwyn i gof eu bod wedi gweld yr hysbyseb teledu. Mae’r Ymddiddorwyr Diwylliant yn y cyfamser, sydd leiaf tebygol o ystyried Cymru, ymhlith y rhai sydd â'r gydnabyddiaeth a brociwyd uchaf o'r hysbyseb.

6.4 Mae'n werth nodi bod yr ymchwil wedi'i gynnal ar ddechrau'r cylch hysbysebu teledu, ac ymchwilir yn fanylach i hyn mewn adroddiadau canlynol.

## Yn cofio hysbyseb teledu Croeso Cymru yn gyffredinol a fesul segment

(CH2) (Sylfaen: Pob un n=1000)


**14%**

**Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru**

| Anturwyr | Ceiswyr Cyffro | Archwilwyr | Ymwelwyr | Ymddiddorwyr Diwylliant |
|---|---|---|---|---|
| 11% | 22% | 10% | 11% | 21% |

## Ymgysylltiad â chyfathrebiadau Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf

6.5 Y sianel a ddefnyddir amlaf i ymgysylltu â Croeso Cymru yw'r wefan gyda 12% yn ymweld â'r safle yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae lleiafrif bach hefyd wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o sianeli cyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru.




6.6 Ymhlith y segmentau, Ceiswyr Cyffro sydd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld â gwefan Croeso Cymru (22%) ac mae hanner wedi ymgysylltu ag unrhyw un o sianeli Croeso Cymru. Mae Ymddiddorwyr Diwylliant hefyd yn adrodd uwchlaw’r cyffredin am ymweliadau gwe ac ymgysylltu, yn enwedig Facebook. Mae Archwilwyr, Anturwyr a’r


Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd yn llawer llai tebygol o fod wedi ymweld â'r wefan neu ymgysylltu ag unrhyw sianeli Ymweld â Chymru.

**Ymgysylltiad â Croeso Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf ymhlith segmentau**

*(CH3) (Sylfaen: Anturwyr n=344; Ceiswyr Cyffro n=200; Archwiliwyr n=246; Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd n=114; Ymddiddorwyr Diwylliant n=96)*

| | Anturwyr | Ceiswyr Cyffro | Archwilwyr | Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd | Ymddiddorwyr Diwylliant |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi ymweld â gwefan Croeso Cymru | 10% | 22% | 7% | 9% | 14% |
| Wedi derbyn e-gylchlythyron gan Croeso Cymru | 3% | 10% | 3% | 4% | 8% |
| Yn dilyn Croeso Cymru ar Trydar | 1% | 8% | 2% | 2% | 9% |
| Yn ffrindiau gyda Croeso Cymru ar Facebook | 2% | 11% | 2% | 2% | 19% |
| Yn tanysgrifio i Sianel Croeso Cymru ar YouTube | 3% | 11% | 4% | 5% | 8% |
| Yn dilyn Croeso Cymru ar Instagram | 3% | 10% | 3% | 4% | 11% |
| **Unrhyw rai o'ch uchod** | **19%** | **50%** | **15%** | **18%** | **46%** |

6.7 Mae gan y farchnad Almaenaidd nifer gymharol isel o berthynas ehangach â Chymru, gydag 8% gyda ffrindiau neu deulu yn byw yno, ond cyfrannau isel wedi ymweld am ddigwyddiadau, gwaith neu astudio. Felly, ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau fyddai'r cyfle mwyaf i dargedu darpar ymweliadau hamdden.



# 7. Prif Ganfyddiadau a Goblygiadau

7.1 Pan gynhaliwyd yr ymchwil ddechrau mis Mawrth 2020, roedd y bwriad i ymweld â'r DU am wyliau neu wyliau byr ymhlith y farchnad Almaenaidd yn gymharol gyson â'r 12 mis blaenorol. Er bod hyn bron yn sicr o fod wedi newid yn dilyn argyfwng y Coronafeirws, mae'n datgelu rhywfaint o sefydlogrwydd mewn agweddau at fynd ar dripiau i'r DU.

7.2 Yn nodedig, roedd awydd i fynd ar dripiau domestig o fewn yr Almaen, neu dripiau i dir mawr Ewrop, yn debygol o gynyddu yn ystod y 12 mis nesaf tra bod tripiau hirach i weddill y byd yn gostwng. Mae hyn yn awgrymu – gyda'r amodau cywir - fod potensial i gynyddu tripiau i'r DU gyfagos hefyd.

7.3 Mae pryderon amgylcheddol yn arbennig o bwysig i'r farchnad Almaenaidd, a all fod o fudd i deithio i'r DU gan y tybir bod teithio yno 'gerllaw felly'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd'. Wedi dweud hynny, pe bai Almaenwyr yn cymryd yr opsiynau trafnidiaeth fwy ecogyfeillgar fel trên neu gar, mae mynediad i rai o gyrchfannau Cymru yn dod yn fwy heriol. Bydd tynnu sylw at gysylltiadau trafnidiaeth o borthladdoedd allweddol yn bwysig er mwyn hwyluso'r teithio hwn.

7.4 Mae nifer o rwystrau canfyddedig i ymweld â'r DU am wyliau neu wyliau byr fel costau canfyddedig a'r tywydd. Mae pryderon ynghylch Brexit hefyd yn arbennig o gryf gydag ychydig o dan hanner yr Almaenwyr yn ei nodi fel dylanwad. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyfleu sicrwydd ynghylch teithio i'r DU pan fydd diwedd y cyfnod pontio yn nesáu ym mis Rhagfyr 2020.

7.5 Mae gan y farchnad Almaenaidd argraff gadarnhaol net o'r DU – gyda 'rhesymau dros ymweld' yn mynegeio'n uwch na 'rhwystrau i ymweld' – dangosydd cadarnhaol ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol.

7.6 Mae'r farchnad Almaenaidd yn fwyaf tebygol o fod yn ystyried teithiau i'r DU ar gyfer taith 'treftadaeth' a thaith 'gwyliau dinas'. Mae eu pwysigrwydd yn awgrymu bod angen parhau i'w hyrwyddo o fewn cyfathrebiadau Croeso Cymru.

7.7 Yn gadarnhaol, ymhlith y farchnad Almaenaidd mae awydd cryf am weithgareddau awyr agored fel cerdded a heicio a chrwydro ar gyfer golygfeydd a thirweddau anhygoel, y mae'r ddau ohonynt yn gryfderau cynnyrch i Gymru.

7.8 Ymhlith y segmentau, yr Anturiaethwyr a'r Archwiliwyr sydd fwyaf tebygol o ystyried trip i Gymru. Tynnir y ddau segment hyn i mewn fwyaf gan weithgareddau cerdded, heicio a chrwydro yn ogystal ag ymweld â safleoedd ac atyniadau treftadaeth. Anturiaethwyr yn arbennig yw'r segment sydd fwyaf tebygol o ymweld â gwefan teithio, felly gall pwysleisio apêl Cymru drwy'r sianel hon helpu i ddenu'r gynulleidfa hon.

7.9 Un her allweddol wrth yrru ymweliadau â Chymru yw ymgyfarwyddo â'r hyn sydd gan y wlad i'w gynnig. Mae y farchnad Almaenaidd yn llai cyfarwydd â Chymru nag ydyw gydag unrhyw wlad arall yn y DU. Mae bod yn gyfarwydd â Chymru yn cyd-fynd ag ystyriaeth gymharol is o ymweliadau, ac mae'n rheswm a roddir yn uniongyrchol dros beidio ag ymweld. Mae hyn yn dilysu'r angen i barhau i hyrwyddo Cymru i'r farchnad Almaenaidd.

7.10 Dylid cyfuno codi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd i'w wneud yng Nghymru gan dynnu sylw at fforddiadwyedd ac amrywiaeth y pethau sydd ar gael yng Nghymru. Cododd ansicrwydd yn y maes hwn hefyd fel rhwystr i ymweliadau.

7.11 Mae'n werth nodi nad yw cynefindra bob amser yn brocsi i'w ystyried ar gyfer ymweld. Mae'r Alban yn sgorio'n uwch na Chymru ar bron pob math o gyrchfan – yn enwedig y rhai sydd bwysicaf i farchnad yr Almaen – gan dynnu sylw at bwysigrwydd brand iach. Mae hyn yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd marchnata cryf Croeso Cymru.

7.12 Mae angen argyhoeddi'r ystyrwyr o hyd mai Cymru ddylai fod eu dewis cyrchfan yn y dyfodol agos. Nid yw tua hanner y rhai sy'n ystyried Cymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau wedi archebu lle eto ac roeddent yn ystyried lleoedd eraill.

7.13 Mae mwyafrif llethol y farchnad Almaenaidd yn ystyried Cymru am drip hirach yn hytrach nag ar benwythnosau, ac yn bwriadu cyfuno hyn ag ymweld â rhannau eraill o'r DU. O'r herwydd, efallai y bydd potensial i dynnu sylw o fewn cyfathrebu at yr opsiynau teithio hawdd sy'n darparu ar gyfer hyn.

7.14 Bydd angen defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i drosi'r farchnad Almaenaidd i ymwelwyr – mae ffynonellau ar-lein, yn enwedig gwefannau teithio, yn bwysig wrth gynllunio, yn ogystal â ffynonellau print a ddefnyddir fwy ar gyfer gwybodaeth na'r cyfryngau cymdeithasol.

# 8. Atodiad

## Methodoleg

8.1 Cysylltwyd ag ymatebwyr drwy banel ar-lein y gellid ei gwblhau drwy fwrdd gwaith neu ddyfais symudol. Defnyddiwyd cyfuniad o baneli, gyda Dynata fel prif ddarparwr y panel.

8.2 Cynhaliwyd gwaith maes rhwng **27ain Chwefror a 9fed Mawrth 2020**, cyn y prif achosion o COVID-19 a'r cyfyngiadau yn y DU. Cymerodd yr arolwg 20 munud i'w gwblhau ar gyfartaledd.

8.3 Er mwyn sicrhau ansawdd yr ymatebion, rhoddwyd nifer o gamau ar waith yn ystod ac yn dilyn yr arolwg:

(1) Ar ddechrau'r arolwg, rhoddwyd 'cwestiwn baglu' i ymatebwyr, i sgrinio'r rhai a oedd yn darparu ymatebion cadarnhaol at ddiben cymhwyso ar gyfer yr arolwg yn unig. Gofynnodd y cwestiwn i ymatebwyr nodi'r cyfandiroedd yr oeddent wedi ymweld â nhw am wyliau yn 2019. Sgriniwyd allan ymatebwyr a oedd yn ticio pob bocs.

(2) Ymatebion fflat – dilëwyd ymatebwyr a roddodd ymatebion tebyg i'r holl gwestiynau sgorio yn yr arolwg.

(3) Cyflymwyr –dilëwyd ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg mewn amser cyflym afrealistig.

(4) Gwiriwyd tablau data yn erbyn y data crai.

(5) Cynhaliwyd pob cam yn unol ag ISO20252.

8.4 Cwblhawyd 1,000 o arolygon.

### Diffiniad sampl

8.5 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i gyfranogwyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr.
- Rhaid ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU *o ddifrif* yn ystod y 12 mis nesaf.

## Meintiau sylfaen a dibynadwyedd ystadegol

8.6 Cyfeiriwyd at wahanol is-grwpiau drwy gydol yr adroddiad hwn, ac mae'n hanfodol bod y darllenydd yn ymwybodol o'i feintiau sylfaen a dibynadwyedd ystadegol y ffigurau a gyflwynwyd. Mewn rhai achosion, mae meintiau sylfaen yn isel, felly dylid eu trin yn ofalus. Mae'r tabl isod yn dangos ymylon gwallau ar lefel hyder o 95% ar gyfer rhai o'r is-grwpiau allweddol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

| Maint y sampl neu'r is-grŵp y seilir canlyniad yr arolwg arno | 10% neu 90% ± | 30% neu 70%± | 50%± |
|---|---|---|---|
| **POB YMATEBYDD (1000)** | 1.9 | 2.8 | 3.1 |
| **YSTYRWYR I GYMRU (327)** | 3.3 | 5.0 | 5.4 |
| Gogledd yr Almaen (179) | 4.4 | 6.7 | 7.3 |
| Gorllewin yr Almaen (281) | 3.5 | 5.4 | 5.9 |
| Canol yr Almaen (101) | 5.9 | 8.9 | 9.6 |
| Dwyrain yr Almaen (152) | 4.8 | 7.3 | 8.0 |
| De'r Almaen (287) | 3.5 | 5.3 | 5.8 |
| Anturwyr (344) | 3.2 | 4.8 | 5.3 |
| Ceiswyr Cyffro (200) | 4.2 | 6.4 | 6.9 |
| Archwilwyr (246) | 3.8 | 5.7 | 6.3 |
| Rhai sy'n mynd i weld golygfeydd (114) | 5.5 | 8.4 | 9.2 |
| Ymddiddorwyr Diwylliant (96) | 6.0 | 9.2 | 10.0 |

## Cyfyngiadau Methodoleg

8.7 Fel gyda phob arolwg o'r math hwn mae rhai cyfyngiadau gyda methodoleg yr arolwg. Y prif gyfyngiadau yw:

- **Rhagfarn hunan-ddethol:** Mae'r ymatebwyr yn yr arolwg hwn yn 'hunan-ddethol', sy'n golygu eu bod wedi cyflwyno eu hunain i gwblhau'r ymchwil. Mae hyn yn naturiol yn creu tuedd yn y math o ymatebydd sy'n ateb yr arolwg. Er enghraifft, maent yn tueddu i fod yn unigolion mwy rhagweithiol na'r boblogaeth ar gyfartaledd, ac felly gallant fynegeio'n uwch yn eu tebygolrwydd o ymweld â chyrchfannau'r DU. At hynny, fel pobl sy'n ymateb yn rheolaidd i arolygon o bob math gwahanol, maent yn debygol o fod â barn fwy datblygedig ar amrywiaeth o faterion na'r cyfartaledd.
- **Sampl ar-lein:** Er bod y rhan fwyaf o Brydeinwyr bellach ar-lein, mae 'llythrennedd ar-lein' yn parhau'n is ar gyfer y poblogaethau hŷn, felly mae'n

debygol y bydd y duedd hunan-ddethol yn effeithio'n anghymesur ar y grŵp oedran hwn.

- **Ymatebion damcaniaethol:** Bydd rhai ymatebion yn seiliedig ar amcanestyniadau damcaniaethol, a dylid eu hadolygu yng ngoleuni hyn. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch archebu a ragwelir ac ymddygiad teithio wrth ymweld â Chymru.
- **Dylanwadau gwrthdrawiadol:** Ar gyfer rhai is-grwpiau, bydd ffactorau y tu hwnt i ddiffiniad hunangynhwysol yr is-grŵp yn dylanwadu ar ymatebion. Er enghraifft, ar gyfer cwestiynau am ymweliadau blaenorol â Chymru, mae 'rhanbarth preswyl' yn ddylanwad blaenllaw (pellter yn rhwystr allweddol i ymweld). Os yw segment blaenoriaeth yn anghymesur yn byw ymhell o Gymru, bydd eu tebygolrwydd o ymweld yn is oherwydd ble maent yn byw, yn hytrach nag oherwydd eu dewisiadau segment.

8.8 Mae'n bwysig nodi y bydd y cyfyngiadau hyn yn gyson ar draws tonnau’r arolwg, felly caiff unrhyw symudiadau mewn ymatebion eu llywio gan ffactorau dilys, y tu allan i'r fethodoleg.